

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Craffu ar Ail Gyllideb Atodol
Llywodraeth Cymru ar gyfer
2014-15

Mawrth 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: Seneddcyllid@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Craffu ar Ail Gyllideb Atodol
Llywodraeth Cymru ar gyfer
2014-15

Mawrth 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Cyllid

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae eu cylch gwaith hefyd yn cynnwys pwerau statudol penodol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau newydd i oruchwyllo materion llywodraethu Swyddfa Archwilo Cymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Jocelyn Davies (Cadeirydd)

Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Peter Black

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



Christine Chapman

Llafur Cymru
Cwm Cynon



Mike Hedges

Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Alun Ffred Jones

Plaid Cymru
Arfon



Ann Jones

Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Julie Morgan

Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



Nick Ramsey

Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



Cynnwys

Casgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor	5
1. Trosolwg	7
2. Ariannu'r GIG (Blaenoriaethu)	9
Safbwynt y Pwyllgor.....	11
3. Buddsoddi i Arbed (Blaenoriaethu a Gwerth am Arian)	13
Safbwynt y Pwyllgor.....	14
4. Ailflaenoriaethu a gostyngiadau yn ystod y flwyddyn (Blaenoriaethu)	15
Safbwynt y Pwyllgor.....	17
5. Cronfeydd wrth gefn a'r System Cyfnewid Cyllidebau (Fforddiadwyedd)	18
Safbwynt y Pwyllgor.....	19
6. Cyrff eraill	20
Swyddfa Archwilio Cymru.....	20
Safbwynt y Pwyllgor.....	20
Cynulliad Cenedlaethol Cymru.....	21
Safbwynt y Pwyllgor.....	22
Atodiad A - Llythyr at y Gweinidog ynghylch comisiynu 'Adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield: Degawd o Gyni i Gymru'	24
Atodiad B - Tystion	25

Casgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Cyfeiriwch at y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a chasgliadau ategol:

Casgliad 1: Nododd y Pwyllgor yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2015-16 mai mater i'r Llywodraeth yw pennu ei blaenoriaethau, ac mae'r Pwyllgor yn cadw at y farn hon. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus bod y cyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu i'r maes iechyd heb bennu targedau pendant ar sut y bydd y GIG yn gwella a dod yn gynaliadwy yn ariannol. (Tudalen 11)

Casgliad 2. Mae gan y Pwyllgor bryderon bod lefel y cyllid a gaiff ei ddyrannu i iechyd yn ymddangos fel pe bai'n seiliedig ar y dystiolaeth o un adroddiad. (Tudalen 12)

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld bod prosiectau Buddsoddi i Arbed yn sicrhau'r arbedion a ragwelir. O ystyried y materion ynghylch cynllun blaenorol gadael swydd yn gynnar o wirfodd Cyfoeth Naturiol Cymru, byddai'r Pwyllgor yn dymuno gweld rhagor o fanylion am yr arbedion a ragwelir ar gyfer y cynllun diswyddo gwirfoddol presennol, a bydd yn monitro hyn i weld a gaiff yr arbedion eu cyflawni yn ôl y disgwyl. (Tudalen 14)

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn ansicr ynghylch y rhesymau y tu ôl i gyfraniadau cymharol y chwe prif grŵp gwariant arall i'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i'r prif grŵp gwariant lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn arbennig y rhesymau pam fod rhai prif grwpiau gwariant wedi cyfrannu mwy nag eraill. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn egluro'r broses hon o wneud y penderfyniad hwn. (Tudalen 17)

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod cyllid ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i sefydliadau'r GIG er mwyn helpu i leddfu'r pwysau ariannol, ond nid i lywodraeth leol a'r trydydd sector mewn perthynas â dyfarniadau llyso diweddar yn y sector gofal cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn ymgymryd â gwaith i asesu goblygiadau posibl y costau ychwanegol sy'n wynebu'r sectorau hyn. Rydym hefyd yn argymhell bod y Gweinidog yn ystyried darparu

cymorth i lywodraeth leol a'r trydydd sector i helpu i liniaru'r costau ychwanegol hyn. (Tudalen 17)

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r hyblygrwydd ychwanegol a roddwyd i Lywodraeth Cymru ynghylch cario cyllid trafodiadau ariannol ymlaen, ac mae'n argymhell bod y Gweinidog yn parhau gyda'i hymdrechion i gael mwy o hyblygrwydd o ran system gyfnewid y gyllideb. (Tudalen 19)

Casgliad 4. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â chynigion Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n falch o nodi bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi trafod newidiadau a gynigir i'r Gyllideb Atodol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth. (Tudalen 21)

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r newid o gyfalaf i refeniw, ond mae'n pryderu nad oedd hyn yn hawdd ei ganfod yn nogfennaeth y gyllideb. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn adolygu ei ymagwedd tuag at ddogfennaeth y gyllideb er mwyn sicrhau yr un lefel o dryloywder â'r hyn a ddisgwylir gan gyrrff eraill yn y sector cyhoeddus. (Tudalen 22)

Casgliad 5. Ni fyddai'r Pwyllgor fel arfer yn disgwyl awdurdodi newid o gyfalaf i refeniw ac ni fyddai'n dymuno gweld y dull hwn yn cael ei gymryd eto gan Gomisiwn y Cynulliad. (Tudalen 22)

Casgliad 6. Mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylid cynyddu'r terfyn incwm a gynhwysir yng Nghwmpas Cyllideb Comisiwn y Cynulliad fel yr awgrymwyd a hoffai weld cynyddu'r terfyn hwn i darged mwy realistig yn y dyfodol. (Tudalen 23)

1. Trosolwg

1. Gosododd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (Jane Hutt AC) (y Gweinidog) ail Gyllideb Atodol 2014-15¹ ar 10 Chwefror 2015. Mae'n diwygio Cyllideb Atodol gyntaf 2014-15, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2014. Mae nodyn esboniadol a thablau sy'n dangos dyraniadau'r prif grŵp gwariant (MEG) yn cyd-fynd â'r ail Gyllideb Atodol.
2. Mae'r Ail Gyllideb Atodol yn cynyddu terfynau gwariant adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru 1.9% o gymharu â'r Gyllideb Atodol Gyntaf. Mae'r prif ddyraniadau refeniw ychwanegol yn y portffolio lechyd a Gofal Cymdeithasol. Y rhain yw'r £200 miliwn ychwanegol ar gyfer GIG Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref, ynghyd â £40 miliwn ychwanegol i ariannu pwysau'r gaeaf yn y GIG.
3. Y prif ddyraniadau cyfalaf ychwanegol yw'r £14.9 miliwn ar gyfer y GIG a gyhoeddwyd ym mis Ionawr a £10.8 miliwn o gyllid trafodiadau ariannol ar gyfer Tai drwy'r Grant Tai Cymdeithasol a Benthyciadau Gwella'r Cartref.
4. Y dyraniadau annewisol ychwanegol mwyaf (gwariant a reolir yn flynyddol (AME)) yw £48 miliwn i'r prif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf o ran benthyciadau myfyrwyr a £45 miliwn i'r prif grŵp gwariant Llywodraeth Leol, mewn perthynas ag achos cyfreithiol sy'n mynd rhagddo o hyd.
5. Caiff y buddsoddiadau hyn eu hariannu gan gyfuniad o ddyraniadau o gronfeydd, ailddyrannu arbedion o adrannau eraill a throsglwyddiadau o adrannau Llywodraeth y DU.
6. Mae cynnig y gyllideb atodol yn gofyn i'r Cynulliad awdurdodi Gweinidogion Cymru i godi £309.8 miliwn ychwanegol mewn arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru ym mlwyddyn ariannol 2014-15.

Cyrff eraill

7. Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnwys newidiadau i gyllidebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff y rhain eu cynnwys yn mhennod 6 yn yr adroddiad hwn.

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, GEN-LD10100, Cynnig y Gyllideb Atodol, 10 Chwefror, 2015 [fel ar 19 Chwefror, 2015]

8. Nid oes dim newid i amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Dim ond â newidiadau o fewn y flwyddyn ariannol bresennol y mae'r ffigurau yn y papur hwn yn gysylltiedig, ac felly fe'u dangosir ar ffurf arian parod; ni wnaed unrhyw addasiadau ar gyfer chwyddiant.

2. Ariannu'r GIG (Blaenoriaethu)

9. Cafwyd cynnydd o £264.6 miliwn yn y terfyn gwariant adrannol ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o gymharu â Chyllideb Atodol gyntaf 2014-15. O'r cynnydd hwnnw, terfyn gwariant adrannol refeniw yw £249.1 miliwn a therfyn gwariant adrannol cyfalaf yw £15.5 miliwn.

10. Mae'r prif ddyraniadau refeniw ychwanegol ar gyfer y £200 miliwn ychwanegol i GIG Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref, ynghyd â £40 miliwn ychwanegol i ariannu pwysau'r gaeaf yn y GIG. Y prif ddyraniad cyfalaf ychwanegol yw'r £14.9 miliwn ar gyfer y GIG a gyhoeddwyd ym mis Ionawr.

O'r £200 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Hydref, mae £25 miliwn ar gyfer ariannu dyfarniad cyflog y GIG ar gyfer 2014-15. Caiff y £175 miliwn sy'n weddill ei ddyrannu fel a ganlyn:²

Sefydliad	Dyraniad Ychwanegol o £m
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	26.100
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	26.700
Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr	35.000
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	15.500
Bwrdd Iechyd Cwm Taf	8.000
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	38.700
Bwrdd Iechyd Powys	25.000
Cyfanswm	175.000

Tystiolaeth gan y Gweinidog

11. Wrth siarad am ddyrannu'r cyllid ychwanegol i iechyd, dywedodd y Gweinidog y daeth y dystiolaeth am y cyllid hwn o'r 'Nuffield Trust Report: A Decade of Austerity'³ ('Adroddiad Nuffield').

12. Gofynnwyd i'r Gweinidog pwy a gomisiynodd yr adroddiad hwn, ac ymatebodd y Gweinidog:

"I think I'd have to clarify exactly with the Minister for Health and Social Services. ... I think it was commissioned by the

² Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) [fel ar 19 Chwefror 2015]

³ Ymddiriedolaeth Nuffield, [A Decade of Austerity](#), Mehefin 1014 [fel ar 19 Chwefror, 2015]

public sector. ... It wasn't commissioned by the Welsh Government, but the Welsh Government wanted to—. ... I think it was felt outside the Welsh Government, but welcomed by the Welsh Government, that we needed that overview, which would very much fall alongside a Nuffield overview in England in terms of finances.”⁴

13. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y caiff yr angen am gyllid ychwanegol y GIG ei gydbwysu yn erbyn anghenion sy'n cystadlu â phortffolios eraill. Dywedodd:

“... had to be a decision that we made as a Cabinet and, as Finance Minister, I then had to make sure that I could work with all Ministers to see ways in which we could identify savings and even make reallocations if that was appropriate, but recognising that it would be very challenging for them. But we had this imperative that we had to meet the needs of the health service.”⁵

14. Gofynnwyd i'r Gweinidog hefyd sut y mae'r dyraniadau ychwanegol i'r GIG yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG, fel y'u nodir yn y Rhaglen Lywodraethu? Ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

“If we look back at the Nuffield report, it is very clear that there has to be new models of delivery that strengthen care and support provided in local communities, and I think the report in itself does show that there are many ways in which we have met some of the challenges, particularly significant challenges relating to an ageing population, growth in the number of people experiencing chronic conditions. I think Nuffield have said that every healthcare system in the world is facing these issues, particularly in the age of austerity. It also does say that the NHS was responding in Wales, has responded to challenges in places, so, without—. The health Minister would answer fully on how he is going to take this forward, and, obviously, does account to the Assembly on that basis, but it was a challenge to reform and reshape services based on his approach to prudent

⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 11, 25 Chwefror 2015

⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 9, 25 Chwefror 2015

healthcare, the funding that he's found and the way we found that together for integrating health and social care and primary care.”⁶

15. Gofynnwyd i'r Gweinidog hefyd pa sicrwydd oedd ganddi y bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i roi'r GIG ar 'sail gynaliadwy', a'i hymateb oedd:

“I, obviously, regularly meet with and discuss with the health Minister how he is delivering on our expectations, because basically it was very clear from the Nuffield report: this is the money that they said we needed, we've delivered it and now the health service has got to sustain itself based on that input of funding.”⁷

Safbwynt y Pwyllgor

16. Yn ei adroddiad yn craffu ar Gyllideb Ddrafft 2015-16,⁸ gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion yn ymwneud â dyraniadau'r GIG yn 2014-15 a 2015-16. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ba un a ddefnyddir yr adnodd i gyd-fynd â'r broses o ddiwygio'r GIG neu i gynnal lefelau presennol y gwasanaeth. Edrychwyd hefyd ar y broses o roi diwygiadau ar waith.

17. Mewn perthynas â chomisiynu adroddiad Nuffield nodar Pwyllgor fod y tu mewn i glawr adroddiad Nuffield yn dweud:

“This is an independent report, which has been commissioned by the Welsh Government.”⁹

18. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog er mwyn cael eglurhad ar y mater hwn, mae copi o'r llythyr hwn i'w gweld yn atodiad 1.

Nododd y Pwyllgor yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2015-16 mai mater i'r Llywodraeth yw pennu ei blaenoriaethau, ac mae'r Pwyllgor yn cadw at y farn hon. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn

⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 18, 25 Chwefror 2015

⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 26, 25 Chwefror 2015

⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, [Craffu Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015-2016](#) - Tachwedd 2014

⁹ Ymddiriedolaeth Nuffield, [A Decade of Austerity](#), Mehefin 1014 [fel ar 19 Chwefror, 2015]

parhau i fod yn bryderus bod y cyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu i'r maes iechyd heb bennu targedau pendant ar sut y bydd y GIG yn gwella a dod yn gynaliadwy yn ariannol.

Mae gan y Pwyllgor bryderon bod lefel y cyllid a gaiff ei ddyrannu i iechyd yn ymddangos fel pe bai'n seiliedig ar y dystiolaeth o un adroddiad.

3. Buddsoddi i Arbed (Blaenoriaethu a Gwerth am Arian)

19. Mae ail Gyllideb Atodol 2014-15 yn trosglwyddo cyfanswm o £24.3 miliwn o refeniw o'r cam gweithredu Buddsoddi i Arbed yn y prif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

20. Trosglwyddwyd yr arian hwn o'r cam gweithredu Buddsoddi i Arbed i bedwar cynllun diswyddo gwirfoddol neu adael swydd yn gynnar o wirfodd ar draws y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Dyma'r pedwar cynllun o dan sylw:

- £7.9 miliwn i gynllun gadael swydd yn gynnar o wirfodd y GIG;
- £5 miliwn i gynllun diswyddo gwirfoddol Llywodraeth Cymru;
- £2.5 miliwn i gynllun diswyddo gwirfoddol yn gynnar Cyfoeth Naturiol Cymru, a
- £0.5 miliwn i gynllun gadael swydd yn gynnar o wirfodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

21. Gofynnwyd i'r Gweinidog am werth am arian cynlluniau diswyddo gwirfoddol Buddsoddi i Arbed a pha asesiad cychwynnol sydd wedi'i wneud o'r arbedion y gellid eu gwneud gan y cynlluniau hyn, yn enwedig mewn perthynas â'r cynllun sydd yn ei le yng Nghyfoeth Naturiol Cymru. Ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

"...in terms of Natural Resources Wales, they did receive £2.5 million for their latest scheme. It's different from the first scheme, which we supported through invest-to-save, because the first scheme was about the transition in terms of funding voluntary early release for staff as a result of the merger, going into NRW. I think it's important to put on the record that that scheme achieved savings of £4 million a year."¹⁰

22. Pan gafodd ei holi ymhellach ynghylch y cynllun Buddsoddi i Arbed yng Nghyfoeth Naturiol Cymru, dywedodd y Gweinidog fod y symiau yn gymharol fach yng nghyd-destun buddsoddi i arbed yn ei

¹⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 31, 25 Chwefror 2015

gyfanrwydd a disgwylir iddo gael ei dalu yn ôl yn 2015-16, gydag arbedion o £29 miliwn erbyn 2024.¹¹

Safbwynt y Pwyllgor

23. Bu'r Pwyllgor yn craffu ar ddyraniad ar gyfer cynllun blaenorol i ad-drefnu gweithlu Cyfoeth Naturiol Cymru a wnaed yng Nghyllideb Atodol cyntaf 2013-14, gan nodi yn ei adroddiad:

"Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn gefnogol iawn i'r Cynllun Buddsoddi i Arbed ac mae o'r farn ei fod yn esiampl i lywodraethau eraill yn y DU a thu hwnt. Fodd bynnag, cawsom siom gweld ei fod fel pe bai'n cael ei ddefnyddio fel cronfa arian parod i dalu'r costau sy'n gysylltiedig ag uno'r sefydliadau i greu Cyfoeth Naturiol Cymru. Er y bydd y taliadau hyn o bosibl yn arwain at arbedion yn yr hirdymor, ni chredwn eu bod yn gydnaws ag ysbryd y cynllun. Ailadroddwn ein hargymhelliad blaenorol mai dim ond pan fo tystiolaeth gref y gallai buddsoddi arwain at arbedion y dylid defnyddio arian Buddsoddi i Arbed, ac nid pan fo angen cyllid ychwanegol, a fydd yn arwain at arbedion dros amser yn ôl pob tebyg."¹²

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld bod prosiectau Buddsoddi i Arbed yn sicrhau'r arbedion a ragwelir. O ystyried y materion ynghylch cynllun blaenorol gadael swydd yn gynnar o wirfodd Cyfoeth Naturiol Cymru, byddai'r Pwyllgor yn dymuno gweld rhagor o fanylion am yr arbedion a ragwelir ar gyfer y cynllun diswyddo gwirfoddol presennol, a bydd yn monitro hyn i weld a gaiff yr arbedion eu cyflawni yn ôl y disgwyl.

¹¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 32, 25 Chwefror 2015

¹² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, [Cyllideb Atodol Gyntaf 2013-14](#) - Tachwedd 2014

4. Ailflaenoriaethu a gostyngiadau yn ystod y flwyddyn (Blaenoriaethu)

24. Cafwyd gostyngiad cyffredinol o ran dyraniadau gwariant dewisol (terfynau gwariant adrannol) i dri prif grŵp gwariant yn yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2014-15 o gymharu â'r gyntaf. Y tri prif grŵp gwariant o dan sylw yw Llywodraeth Leol (£4.3 miliwn), Addysg a Sgiliau (£11.9 miliwn) a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (£12 miliwn).

25. Yn y prif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau, mae nifer o symiau wedi cynyddu a gostwng oddi mewn i'r gostyngiad cyffredinol o £11.9 miliwn. Mae'r gostyngiadau mwyaf yn effeithio ar y camau gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc (£9.3 miliwn) ac Addysg Ôl-16 (£26.2 miliwn) yn y prif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau. Mae'r cam gweithredu Addysg Ôl-16 yn cynnwys cyllid ar gyfer prentisiaethau, mathau eraill o ddysgu yn y gwaith ac addysg bellach.

26. Yn y prif grŵp gwariant Llywodraeth Leol, y gostyngiad mwyaf oedd y dyraniad i'r cam gweithredu Cymorth Ariannol ar gyfer Llywodraeth Leol. Arweiniodd hynny at ostyngiad cyffredinol o £2.4 miliwn, yn cynnwys gostyngiad o £2.49 miliwn i gyfrannu at reoli pwysau yn ystod y flwyddyn a throsglwyddiad o £0.08 miliwn i dalu costau NATO.

27. Yn y prif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, mae nifer o symiau wedi cynyddu a gostwng oddi mewn i'r gostyngiad cyffredinol o £12 miliwn. Y gostyngiad mwyaf yw'r trosglwyddiadau i'r prosiectau Buddsoddi i Arbed a nodir uchod. Fodd bynnag, mae gostyngiadau yn y dyraniadau i'r cam gweithredu yng nghyswllt arian cyfatebol wedi'i dargedu yr UE, sef £1.5 miliwn mewn refeniw a £6.3 miliwn mewn cyfalaf. Roedd gostyngiad yn y dyraniad cyfalaf oherwydd y bu llai o alw na'r disgwyl.

28. Ariannwyd y dyraniadau ychwanegol i'r prif grŵp gwariant lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o gronfeydd wrth gefn yn bennaf. Fel cyfraniad rhannol at y dyraniadau ychwanegol hyn, trosglwyddodd Llywodraeth Cymru £62.5 miliwn o derfyn gwariant adrannol o refeniw cyllidol (er enghraifft, cyflog, costau caffael presennol), £0.2 miliwn o derfyn gwariant adrannol o refeniw anghyllidol (er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig â dibrisiant) a £20.1 miliwn o derfyn gwariant

adrannol cyfalaf i gronfeydd wrth gefn o'r chwe prif grŵp gwariant arall.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

29. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y gwnaed penderfyniadau ar gyfraniadau cymharol y chwe prif grŵp gwariant arall tuag at y cyllid ychwanegol ar gyfer y prif grŵp gwariant lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac ymatebodd drwy ddweud:

“... again, was a very difficult decision. When we received the Nuffield report in June, we realised the magnitude of what we could have expected to find and we then had to start work immediately. Of course, that’s work that I undertake with Ministers to identify ways in which savings could be achieved. So, it’s not an expectation where we say, you know, ‘You’re going to have to produce this or else’, it’s actually working with Ministers, making it an expectation that we needed to seek funding from them. Obviously, you can’t turn to the reserve for all of the funding, particularly at that time of the financial year. It was very important in terms of the £200 million that we didn’t wait until December, for example, for the final budget. We needed to get the message out as soon as possible that this funding would be made available. I mean, I think I’ve made the points about why we felt we had to find this funding, and the Cabinet and Ministers, then, obviously, had to very carefully scrutinise their budgets and their in-year spend to see what they could contribute to this.”¹³

30. Pan ofynnwyd pa effaith a gaiff gostyngiadau yn ystod y flwyddyn yn y prif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau ar bobl ifanc yng Nghymru, cadarnhaodd y Gweinidog ei bod wedi gwneud popeth y gallai i leihau'r effaith ar bobl ifanc ¹⁴ ac roedd dulliau'n cael eu defnyddio i geisio gwarchod ffrydiau ariannu pobl ifanc¹⁵ .

31. Pan ofynnwyd iddi am gymorth cyllid ar gyfer llywodraeth leol, dywedodd y Gweinidog fod llywodraeth leol wedi cael ei gwarchod a'i

¹³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 37, 25 Chwefror 2015

¹⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 46-737, 25 Chwefror 2015

¹⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 45, 25 Chwefror 2015

bod yn bwysig cydnabod bod cefnogaeth Llywodraeth Cymru i lywodraeth leol wedi cynyddu yn nhermau arian parod o'i gymharu â Lloegr'.¹⁶

32. Pan ofynnwyd cwestiynau pellach am sut mae'r gefnogaeth termau arian parod hon yn trosi'n dermau real, gan ystyried chwyddiant, dywedodd y Gweinidog y byddai'n ysgrifennu at y Pwyllgor gyda manylion pellach ar hyn.

33. Gofynnwyd cwestiynau pellach i'r Gweinidog yn ymwneud â chostau posibl i lywodraeth leol (a'r trydydd sector) mewn perthynas â dyfarniadau llys diweddar o ran taliadau cynhaliath a chyflogau i weithwyr gofal ac a fyddai cyllid ychwanegol yn cael ei ganfod ar gyfer y costau ychwanegol hyn yn yr un modd ag y daethpwyd o hyd i arian ar gyfer iechyd.

34. Roedd y Gweinidog yn ymwybodol o'r dyfarniad llys a dywedodd fod £10 miliwn yn ychwanegol wedi'i roi i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.¹⁷

Safbwynt y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn ansicr ynghylch y rhesymau y tu ôl i gyfraniadau cymharol y chwe prif grŵp gwariant arall i'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i'r prif grŵp gwariant lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn arbennig y rhesymau pam fod rhai prif grwpiau gwariant wedi cyfrannu mwy nag eraill. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn egluro'r broses hon o wneud y penderfyniad hwn.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod cyllid ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i sefydliadau'r GIG er mwyn helpu i leddfu'r pwysau ariannol, ond nid i lywodraeth leol a'r trydydd sector mewn perthynas â dyfarniadau llys diweddar yn y sector gofal cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn ymgymryd â gwaith i asesu goblygiadau posibl y costau ychwanegol sy'n wynebu'r sectorau hyn. Rydym hefyd yn argymhell bod y Gweinidog yn ystyried darparu cymorth i lywodraeth leol a'r trydydd sector i helpu i liniaru'r costau ychwanegol hyn.

¹⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 50, 25 Chwefror 2015

¹⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 64, 25 Chwefror 2015

5. Cronfeydd wrth gefn a'r System Cyfnewid Gyllidebau (Fforddiadwyedd)

35. Fel rhan o gytundebau rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, caiff Llywodraeth Cymru ddwyn ymlaen tanwariant yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn o wariant. Mae terfyn ar y tanwariant hwn, sef 0.6% o'r gyllideb terfyn gwariant adrannol adnoddau, 1.5% o'r gyllideb terfyn gwariant adrannol cyfalaf traddodiadol a 10% o'r cyllid trafodiadau ariannol sydd ar gael yn 2014-15. O ganlyniad, y terfynau ar gyfer 2014-15 yw £83 miliwn i'r terfyn gwariant adrannol cyllidol, £3.4 miliwn i'r terfyn gwariant adrannol adnoddau anghyllidol, £20.8 miliwn i'r terfyn gwariant adrannol cyfalaf traddodiadol a £12 miliwn o ran cyllid trafodiadau ariannol. Dyma'r cronfeydd wrth gefn a ddelir fel y'u nodir yn ail Gyllideb Atodol 2014-15:

- £60.3 miliwn terfyn gwariant adrannol adnoddau cyllidol (llai na'r terfyn);
- £54.3 miliwn terfyn gwariant adrannol adnoddau anghyllidol (mwy na'r terfyn);
- Dim o ran terfyn gwariant adrannol cyfalaf traddodiadol;
- £1.9 miliwn o ran cyllid trafodiadau ariannol (llai na'r terfyn).

Tystiolaeth gan y Gweinidog

36. O ran system gyfnewid y gyllideb, dywedodd y Gweinidog eu bod wedi'u cyfyngu gan y system, ond fod yr hyblygrwydd ganddynt pe bai unrhyw bwysau annisgwyl arnynt.¹⁸ Cadarnhaodd y Gweinidog:

“Although we’ve got this budget exchange system constraint, I’ve negotiated flexibilities year on year. For example, we’ve got flexibilities relating to our financial transactions funding, so that’s been carried forward, our allocation, because we couldn’t allocate all the money. We didn’t have enough time to develop proposals sufficiently. This is something that’s been afforded to Scotland and Northern Ireland, I believe, as well. We also negotiated money for flood protection last year, which we were

¹⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 87, 25 Chwefror 2015

allocated, but, as far as I'm concerned, we need more flexibilities."¹⁹

Safbwynt y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r hyblygrwydd ychwanegol a roddwyd i Lywodraeth Cymru ynghylch cario cyllid trafodiadau ariannol ymlaen, ac mae'n argymhell bod y Gweinidog yn parhau gyda'i hymdrechion i gael mwy o hyblygrwydd o ran system gyfnewid y gyllideb.

¹⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 84, 25 Chwefror 2015

6. Cyrff eraill

Swyddfa Archwilio Cymru

37. Mae Swyddfa Archwilio Cymru mewn 'Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid Ynghylch yr Amrywiad yng Nghyllideb Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2015'²⁰ yn gofyn am drosglwyddo £216,000 o refeniw i gyfalaf. Y rheswm dros hyn yw er mwyn prynu a gweithredu system TG archwilio newydd yn lle systemau a etifeddwyd sydd bellach yn peri risgiau i barhâd busnes.

38. Mewn llythyr at y Pwyllgor, cadarnhawyd bod y cais wedi cael ei drafod:

“... discussed with Welsh Government officials to align with the Welsh Government’s supplementary budget timeline. I have written separately to the Minister for Finance and Government Business.”²¹

Safbwynt y Pwyllgor

39. Roedd y Pwyllgor yn falch bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi tynnu sylw at ei fwrriad i gymryd y camau hyn wrth gyflwyno Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2013-14 ac amcangyfrifon ar gyfer 2015-16 yn hydref 2014.

40. Ar y pryd, holodd y Pwyllgor y tystion am y system TG archwilio newydd a'r angen i drosglwyddo adnoddau o refeniw i gyfalaf ar gyfer y gwariant o £216,000. Yn adroddiad y Pwyllgor 'Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2013-14; ac Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2015-16', croesawodd y Pwyllgor y byddai hyn yn cael ei ddiwallu drwy adnoddau presennol.²²

41. Pwysleisiodd adroddiad y Pwyllgor ei fod yn awyddus i ddatblygu ffordd o graffu ar Swyddfa Archwilio Cymru "heb syfrdanu" ac mae'n

²⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Fin(04)-03-15 Papur 4 - Memorandwm Esboniadol

²¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Fin(04)-03-15 Papur 3 - Llythyr gan at y Cadeirydd gan Swyddfa Archwilio Cymru

²² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, [Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2013-14; ac Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2015-16](#) - Tachwedd 2014

tynnu sylw at sylwadau ac yn rhoi argymhellion o ran darparu cynllun TG lefel uchel ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol a'r gyllideb.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon â chynigion Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n falch o nodi bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi trafod newidiadau a gynigir i'r Gyllideb Atodol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

42. Gosodwyd Memorandwm Esboniadol Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014-15²³ ar 3 Chwefror 2015. Yn dilyn hyn, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Comisiwn²⁴ yn gofyn am ragor o wybodaeth. Cafwyd ymateb gan y Comisiwn.²⁵

43. Darparodd y Comisiwn ddadansoddiad o'r newidiadau sy'n arwain at gynnydd yn yr incwm disgwylidig. Caiff yr incwm o barcio ceir ei ystumio ychydig gan fod y Comisiwn yn gallu adennill TAW ar gostau parcio allanol.

44. Mae'r diwygiad yn y pensiwn yn addasiad heb fod yn arian parod ac yn amcangyfrif o ailbriso tebygol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae'r Comisiwn wedi cytuno i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ailbriso ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Newid rhwng Refeniw a Chyfalaf

45. Er nad oes newid yn y gofyniad arian parod cyffredinol o Gronfa Gyfunol Cymru, ymddengys bod newid cyllido o gyfalaf i refeniw.

46. Nid yw'r newid o gyfalaf i refeniw yn swm mawr o'i gymharu â chyllideb gyffredinol y Comisiwn, er ei bod yn gyfran fawr o'r gyllideb gyfalaf. Roedd y gyllideb gyfalaf yn £1.741m yng Nghyllideb 2014-15. Mae hyn wedi'i ostwng £1.241m i £ 0.5m. Ni thynnwyd sylw at y newid hwn a dim ond wrth gyfeirio at yr adran cwmpas cyllideb wreiddiol o ddogfennaeth Cyllideb Ddrafft 2014-15 y Comisiwn y daeth i'r amlwg.

²³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, GEN-LD10095, [Comisiwyn y Cynulliad: Cyllideb Atodol 2014-15 Memorandwm Esboniadol, 3 Chwefror 2015 \[fel ar 19 Chwefror, 2015\]](#)

²⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Fin(04)-03-15 Papur 6 - Llythyr gan y Cadeirydd at Angela Burns

²⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Fin(04)-03-15 Papur 7 - Llythyr gan Claire Clancy at y Cadeirydd

Safbwynt y Pwyllgor

47. Mae'r Pwyllgor wedi ei chael yn anodd canfod o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Comisiwn y Cynulliad beth yw'r defnydd a fwriadwyd ar gyfer y cyfalaf sy'n newid i refeniw. Caiff y gair 'buddsoddiad' ei ddefnyddio yn aml yn nogfennaeth y gyllideb, ond nid o ran cyfalaf.

48. Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys trosglwyddiad o refeniw i gyfalaf, na thynnwyd sylw ato ac nad oes disgrifiad o'r effaith yn y ddogfennaeth a ddaw gyda hi.

49. Nid yw'n bosibl i'r Pwyllgor ganfod pa flaenoriaethau buddsoddi a dyraniadau sydd wedi newid o'u cymharu â'r rhai a awdurdodwyd yng nghyllideb wreiddiol y Comisiwn, neu a gaiff y newidiadau arfaethedig yn y Gyllideb Atodol unrhyw effaith ar ymrwymadau yn y dyfodol.

50. Byddai'r Pwyllgor hefyd wedi disgwyl tystiolaeth o hysbysiad mwy ffurfiol i Lywodraeth Cymru dros y newid hwn er mwyn sicrhau ei bod yn gallu cynllunio ar gyfer y newid hwn yn hwyr yn y flwyddyn ariannol. Er enghraifft, dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru ei bod wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid yn rhoi manylion y newidiadau arfaethedig yn ei Chyllideb Atodol ddiweddar.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r newid o gyfalaf i refeniw, ond mae'n pryderu nad oedd hyn yn hawdd ei ganfod yn nogfennaeth y gyllideb. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn adolygu ei ymagwedd tuag at ddogfennaeth y gyllideb er mwyn sicrhau yr un lefel o dryloywder â'r hyn a ddisgwylir gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

Ni fyddai'r Pwyllgor fel arfer yn disgwyl awdurdodi newid o gyfalaf i refeniw ac ni fyddai'n dymuno gweld y dull hwn yn cael ei gymryd eto gan Gomisiwn y Cynulliad.

51. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai ar sail net y mae gofyniad arian parod Comisiwn y Cynulliad a bod terfyn incwm wedi'i gynnwys yng nghwmpas y Gyllideb. Mae hyn wedi'i bennu ar £250,000 am nifer o flynyddoedd, fel targed rhesymol a realistig sy'n seiliedig ar brofiad blynyddoedd blaenorol.

Mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylid cynyddu'r terfyn incwm a gynhwysir yng Nghwmpas Cyllideb Comisiwn y Cynulliad fel yr awgrymwyd a hoffai weld cynyddu'r terfyn hwn i darged mwy realistig yn y dyfodol.

Atodiad A

Y Pwyllgor Cyllid
Finance Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Jane Hutt
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

25 Chwefror 2015

Annwyl Jane,

Ail Gyllideb Atodol 2014-15

Diolch am ddod i'r Pwyllgor i roi tystiolaeth ddoe. Ysgrifennaf atoch i egluro'r sefyllfa o ran comisiynu 'Adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield: Degawd o Gyni i Gymru?'. Pan ofynnwyd yn y Pwyllgor pwy a oedd wedi comisiynu'r adroddiad hwn, dywedasoeh:

"I think I'd have to clarify exactly with the Minister for Health and Social Services. ... It wasn't commissioned by the Welsh Government, but the Welsh Government wanted to—. ... I think it was felt outside the Welsh Government, but welcomed by the Welsh Government, that we needed that overview, which would very much fall alongside a Nuffield overview in England in terms of finances."¹

Ar ôl edrych ar Adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield, rwy'n nodi ei fod yn dweud: "This is an independent report, which has been commissioned by the Welsh Government."

Byddwn yn ddiolchgar o gael eglurhad gennych ar y mater hwn, ac oherwydd yr amserlenni sy'n gysylltiedig â'r gyllideb atodol, byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb buan.

Yn gywir,

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd

¹ Detholiad o drawsgrifiad drafft y pwyllgor

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 02920898120

E-bost/Email: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Atodiad B - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn

www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1243

25 Chwefror 2015

Jane Hutt AC	y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Gawain Evans	Dirprwy Gyfarwyddwr Rheoli Ariannol, Llywodraeth Cymru
Matt Denham-Jones	Pennaeth Rheoli a Chofnodi Cyllidebau, Llywodraeth Cymru